





Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation

Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

 www.twitter.com/TorfaenBizCymru

 www.facebook.com/TorfaenBiz

 www.facebook.com/TorfaenBiz

Torfaen Business Voice
Llais Busnes Torfaen



AR-LEIN

TACHWEDD
2020

Cyfarfod Rhithwir Nesaf:
Dydd Iau 26ain Tachwedd, 11am.

Fel busnes, mae'n anodd gwybod pa gefnogaeth, arian a rheoliadau sy'n bod, tanysgrifiwch am ddim i weld bwletin byr gyda phopeth mewn un man, ac i dderbyn bwletinau Economi a Mentergarwch Torfaen yn rheolaidd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn syth trwy e-bost Tanysgrifiwch i dderbyn bwletinau gwybodaeth rheolaidd, a'r diweddaraf gan Economi a Mentergarwch Torfaen i'ch e-bost.

www.southwalesbusiness.co.uk

TANYSGRIFIWCH

Nodiadau'r Cadeirydd

Gadewch i ni ddechrau gyda'r newyddion da. Roedd yn wych gweld a chlywed gan gynifer ohonoch chi a ymunodd â'n cyfarfod ar-lein diweddar. Mae'n gyfle gwych i siarad am sut mae eich busnesau'n ymdopi â'r heriau presennol ac yn fforwm i gael cefnogaeth a chynghor neu'n gyfle i weld wynebau cyfeillgar, cyfarwydd a chael sgwrs am yr annifyrrwch presennol.

Rydym eisoes wedi cael nifer o aelodau newydd gyda dros nawdeg o fusnesau'n cymryd rhan. Rydym yn dal i gynnig aelodaeth ar-lein am ddim tan ddiwedd y flwyddyn. Bydd y cyfarfod ar-lein nesaf ar 26ain Tachwedd ac rwy'n gobeithio gweld nifer ohonoch chi'r pryd hynny.



Ashley Harkus
Cadeirydd,
Llais
Busnes
Torfaen

Does dim prinder newyddion gwaeth. Gadewch i ni ddechrau â COVID, twyllwyr a Brexit. Rydym yn ceisio helpu cymaint ag y gallwn yn y cylchlythyr gyda chynnwys ar ariannu yn ystod y cyfnod clo, diogelwch seibr a Brexit i'r rheiny sy'n allforio. Rwy'n gobeithio'u bod o ddefnydd i chi gan fy mod yn siŵr y byddwn ni'n trafod y materion yma am gryn dipyn o amser eto.

Yn olaf, mae yna ddarn am declynnau ar-lein Superfast i fusnesau. Os oeddech chi, fel fi, heb syniad beth yw ystyr yr olaf o'r rhain ac mae'n peri i chi feddwl am ddriliau o Amazon Prime, rwy'n siŵr y bydd yr erthygl yn eich rhoi ar ben ffordd. Ymddiheuriadau am y "jôc". Buaswn i'n mynd allan mwy, ond alla' i ddim.

Dod yn Aelod

<http://bit.ly/TBV-membership-form-cy>



Dyddiad i'ch dyddiadue Cyfarfodydd Rhithwir

26/11/20 - Llais Busnes Torfaen - 11am Ar-lein

21/01/21 - Llais Busnes Torfaen - 4.30pm Ar-lein

25/02/21 - Llais Busnes Torfaen - 4.30pm Ar-lein



TUDALEN 3

Y Gronfa I Fusnesau
Dan Gyfyngiadau
Symud

TUDALEN 5

Diweddariad
Brexit

TUDALEN 7

Gwasanaeth Cymorth
Ar Ôl Colli Swydd

TUDALEN 9

Cynllun Kickstart:
Gwybodaeth i Fusnesau
Torfaen

Y Gronfa I Fusnesau Dan Gyfyngiadau Symud

Ar agor i geisiadau ar 28 Hydref 2020

Mae cyfnod clo dros dro wedi ei gyflwyno ledled Cymru i helpu i adennill rheolaeth o'r feirws. Daeth cyfres o fesurau cyfyngu i rym am:

6pm dydd Gwener 23ain Hydref a bydd hyn yn rhedeg hyd at 12:01am ar ddydd Llun 9fed Tachwedd 2020.

Cwestiynau ac Atebion llawn i'w gweld:
<http://bit.ly/firebreak-qanda-welsh>


Mae hon yn gronfa sy'n darparu cymorth ariannol i fusnesau sy'n wynebu heriau gweithredol ac ariannol a achosir gan y cyfyngiadau symud cenedlaethol a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru yn sgil COVID-19.

Diben y gronfa yw cefnogi busnesau gyda chymorth llif arian i'w helpu i orosi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau sydd wedi'u rhoi ar waith.

Bydd y grant yn agored i geisiadau ar **ar 28 Hydref a bydd yn cau am 5pm ar 20 Tachwedd 2020** neu pan fydd y gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn.



GRANTIAU CLO CLEC



1

GRANT ARDRETHI ANNOMESTIG CYFYNGIADAU SYMUD

Mae'r grant hwn ar gael i fusnesau sy'n gorfod talu ardrethi busnes.

GRANT 1

Bydd grant o £5,000 ar gael i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch **sy'n gorfod cau** (fely'i diffinnir gan y rheoliadau: <http://bit.ly/firebreak-regulations-welsh>) sy'n gweithredu mewn eiddo sydd â gwerth ardrethol o rhwng £12,001 a £51,000.

GRANT 2

Bydd grant o £1,000 ar gael i fusnesau sy'n gymwys am ryddhad ardrethi busnesau bach yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000 (gweler yr eithriadau isod).

- ✓ Bydd busnesau sydd wedi'u gorfodi i gau yn sgil y cyfyngiadau symud cenedlaethol yn gallu gwneud cais am grant ychwanegol pellach o £2,000 gan eu hawdurdod lleol.
- ✓ Yn ogystal bydd busnesau sy'n gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnesau bach sydd wedi bod yn destun cyfyngiadau lleol am dair wythnos neu fwy ac sydd wedi'u heffeithio'n sylweddol (gostyngiad o >50% mewn trosiant) hyd at 23 Hydref yn gymwys i gael grant pellach o £1,000.

Nid ydych chi'n gymwys am y grant hwn:

- ✓ Os ydych chi'n gymwys ar gyfer, neu wedi derbyn, y Grant Dewisol Cyfyngiadau Symud gan eich Awdurdod Lleol

Bydd angen i chi fod ar y rhestr ardrethu Ardrethi Annomestig ar gyfer eich awdurdod lleol ar 1 Medi 2020 a bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais syml i dderbyn y grant hwn.

Am ragor o wybodaeth am y grant hwn, darllenwch y Ddogfen Ganllawiau ar y Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud:

<http://bit.ly/non-domestic-rate-grant-guidance>

Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud:

<http://bit.ly/lockdown-non-domestic-rates-grant>

2

GRANT DEWISOL CYFYNGIADAU SYMUD

Nid yw'r grant yma ar gael os ydych yn gymwys i dderbyn y Grant Ardrethi Annomestig uchod

GRANT 1

Mae grant dewisol o £1,500 ar gael i gynorthwyo busnesau sydd:

- ✓ Wedi cael eu gorfodi i gau (fel y'i diffinnir gan y rheoliadau) o ganlyniad i'r cyfnod atal byr cenedlaethol
- ✓ **NEU** yn gallu dangos y bydd y cyfnod atal byr cenedlaethol yn arwain at ostyngiad o 80% o leiaf yn eu trosiant am y cyfnod hwnnw

GRANT 2

Mae grant dewisol o £2,000 ar gael i gynorthwyo busnesau sydd:

- ✓ Wedi cael eu gorfodi i gau (fel y'i diffinnir gan y rheoliadau) o ganlyniad i'r cyfnod atal byr cenedlaethol
- ✓ **NEU** yn gallu dangos y bydd y cyfnod atal byr cenedlaethol yn arwain at ostyngiad o 80% o leiaf yn eu trosiant am y cyfnod hwnnw
- ✓ **AC** maent wedi bod yn destun cyfyngiadau lleol am dair wythnos neu fwy hyd at 23 Hydref ac wedi gweld gostyngiad o 50% o leiaf yn eu trosiant am y cyfnod hwnnw.

NI ALLWCH WNEUD CAIS AM GRANT 1 A GRANT 2.

Nid ydych chi'n gymwys am y grant hwn:

- ✓ Os ydych yn gymwys i dderbyn, neu wedi derbyn, y Grant Ardrethi Annomestig Cyfyngiadau Symud gan eich Awdurdod Lleol

Am ragor o wybodaeth am y grant hwn, darllenwch y Ddogfen Ganllawiau ar y Grant Dewisol Cyfyngiadau Symud: <http://bit.ly/lockdown-discretionary-grant>

Grant Dewisol Cyfyngiadau Symud:

<http://bit.ly/enhanced-lockdown-discretionary-grant>

Y cyntaf i'r felin fydd hi o ran ceisiadau. **Gallai** hyn arwain at beidio â gwerthuso ceisiadau ar ôl eu cyflwyno os yw'r gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn.

Gall yr wybodaeth uchod newid.

Diweddariad Brexit

Gweinidog Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates, yn annog busnesau Cymreig i fod yn barod ar gyfer diwedd cyfnod Trosglwyddo'r UE.

Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates, wedi amlinellu'r paratodau y sydd angen i fusnesau eu gwneud i fod yn barod ar gyfer diwedd y cyfnod trosglwyddo. Yn y darn atodedig i (<http://bit.ly/EU-transition-email-Welsh>) fusnesau mae e'n canolbwyntio ar feysydd ac adnoddau allweddol, gan gynnwys:

OLRHEINIWR LLYWODRAETH Y DU (cael rhestr personol o weithredoedd): <https://www.gov.uk/transition>

DIWEDDARIADAU E-BOST CTHEM (i gael y diweddaraf): <http://bit.ly/hmrc-help-and-support>

PORTHOL TROSGLWYDDO'R UE BUSNES CYMRU <https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/home>

MEWNFORION, ALLFORION A THOLLAU <http://bit.ly/government-letter>

DATA

<http://bit.ly/data-protection-transition-period>

POBL

<https://www.gov.uk/staying-uk-eu-citizen>

FFINIAU

<http://bit.ly/border-planning>



Y Model Gweithredu Ffiniau:

Canllaw ar gyfer sut fydd y ffin gyda'r Undeb Ewropeaidd yn gweithio ar ôl y cyfnod trosglwyddo

Ar 1 Ionawr 2021 bydd y cyfnod trosglwyddo gyda'r Undeb Ewropeaidd yn dod i ben, a bydd y Deyrnas Unedig yn rheoli ffin lawn, allanol fel cenedl sofran. Mae hyn yn golygu y bydd rheolaeth ar symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a'r UE. Er mwyn roi amser ychwanegol i ddiwydiant wneud y newidiadau angenrheidiol, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu cyflwyno rheolaeth newydd ar ffiniau mewn tri cham hyd at 1 Orffennaf 2021.

Y Model Gweithredu Ffiniau yw esboniad Llywodraeth y DU o'r prosesau newydd ar ffiniau a fydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer masnach gyda'r UE y flwyddyn nesaf. Bydd angen y rhan fwyaf o'r rhain waeth a oes cytundeb ar fargen fasnach ai peidio.

Mae angen i unrhyw un sy'n masnachu gyda'r UE rhoi'r prosesau yma ar waith nawr neu, yn fwy na thebyg, ni fyddan nhw'n gallu cael eu nwyddau i/o'r UE y flwyddyn nesaf.

Dilynwch y ddolen isod at y ddogfen 'The Border with the European Union: Importing and Exporting Goods' <http://bit.ly/the-boarder-operating-model>

Ydych chi'n barod am ein perthynas newydd â'r UE?

Mae Alok Sharma, yr Ysgrifennydd Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn annog busnesau i baratoi a gwybod beth sydd i'w wneud wrth i'r DU ddechrau perthynas newydd â'r UE.

Bydd newidiadau sicr o 1af Ionawr yn:

- ✓ y ffordd mae busnesau'n mewnforio ac allforio nwyddau;
- ✓ y broses ar gyfer cyflogi pobl o'r UE;
- y ffordd y mae busnesau'n darparu gwasanaethau ym marchnadoedd yr UE.

Mae cymorth ar gael. Gwiriwch pa gamau y mae angen i chi eu cymryd: <http://bit.ly/gov-uk-transition-cy>

Cofrestrwch i gael y newyddion diweddaraf: <http://bit.ly/email-updates-signup>

Cofrestrwch am gyfer gweminarau: <http://bit.ly/webinar-signup-page>

Ydych chi wedi ymuno â Larwm Seibr yr Heddlu?



Mae hwn yn gynllun sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ac sy'n cynnig monitro o Fygythiadau Seibr i'ch busnes mewn amser go iawn bron!

Mae'r buddion yn cynnwys:

- ✓ Monitro amser go iawn bron gydag adroddiadau rheolaidd
- ✓ Cesglir metadata'n unig, dim data defnyddiwr, cynnwys nac Eiddo Deallusol
- ✓ Cydymffurfiaid â GDPR gan nad oes yna ddata personol

Mae Larwm Seibr yr Heddlu wedi ei ariannu gan y llywodraeth ac mae'n hawdd ymuno, i sefydliadau gan gynnwys busnesau lleol, ysgolion, colegau, cynghorau, cwmnïau cyfleusterau ac unrhyw sefydliad arall a hoffai fod yn rhan o'r cynllun.

Diogelwch eich busnes, ymunwch heddiw!

<https://www.cyberalarm.police.uk/>



Dragons Rewards

Sylw i'ch busnes

Hoffai Rygbi'r Dreigiau gynnig cyfle i fusnesau hysbysebu unrhyw gynigion neu ostyngiadau y gallan nhw gynnig trwy'r clwb. Byddan nhw'n cael eu dosbarthu i ddeiliaid tocynnau tymor a staff (sy'n chwarae neu ddim yn chwarae) yn ogystal â chefnogwyr ehangach y Dreigiau (tua 20,000 o bobl).

Does dim cost i hyn, mae'n rhywbeth yr ydym am gynnig i helpu busnesau hyrwyddo'u hunain ar yr adeg economaidd anodd hon.

Mae gennym ein taflenni Dragons Rewards ar hyn o bryd sy'n cynnig gostyngiadau amrywiol i ddeiliaid tocynnau

tymor ac mae'r busnesau sy'n defnyddio hyn wedi gweld cynnydd mewn nifer cwsmeriaid o ganlyniad h.y. Nando's yn Friars Walk a Gwesty Bryn Meadows yn y rhanbarth. Tra bod y daflen wedi bod yn llwyddiant, rydym ar fin lansio Ap Rygbi'r Dreigiau ble bydd y cynigion i'w gweld hefyd, yn ogystal â thrwy e-byst a'r cyfryngau cymdeithasol fel ein bod yn estyn tuag at ein cefnogwyr i gyd.

Rydym am weld cynifer o fusnesau i ymuno ag sy'n bosibl cyn i ni ddanfon y taflenni i ddeiliaid tocynnau tymor a lansio'r Ap felly os hoffech chi fod yn rhan o rwydwaith y Dreigiau, rhoch wybod i fi .

Tom Watkins - tom.watkins@dragonsrugby.wales



Gwasanaeth Cymorth Ar Ôl Colli Swydd

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH



BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN

Mae adran Economi a Sgiliau Cyngor Torfaen yn gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo cyflogwyr Torfaen, a'u gweithwyr, sy'n wynebi diswyddiadau o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Os ydych chi'n gyflogwr sy'n gorfod diswyddo staff yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae cymorth am ddim ar gael i chi a'ch gweithwyr, gan ein Gwasanaeth Cymorth Ar Ôl Colli Swydd.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ar Ôl Colli Swydd yn wasanaeth AM DDIM sydd ar gael i gyflogwyr o bob maint yn Nhorfaen, i helpu'ch gweithwyr ddod o hyd i waith arall a chael cyfleoedd newydd.

Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys:

- ✓ Paru swyddi â swyddi gwag lleol ar hyn o bryd
- ✓ Chwilio am swydd a help gyda swyddi gwag ar-lein
- ✓ Datblygu CV
- ✓ Hyfforddiant am ddim
- ✓ Cynllunio Gyrfa
- ✓ Dechrau busnes

I gael gwybodaeth bellach dilynwch y linc a chwblhau ein ffurflen ymholiad ar lein:

<http://bit.ly/redundancy-support-form>

E-bost: employability@torfaen.gov.uk | 01633 647743



Pam mai digidol yw'r 'normal newydd' bellach ar gyfer busnesau Cymru

Cyflymu Cymru i Fusnesau

Superfast Business Wales

Mae'r pandemig wedi gorfodi llawer o fusnesau yng Nghymru i newid y ffordd maen nhw'n gweithio'n ddramatig, gyda thechnegau digidol yn chwarae rhan allweddol. Mae wedi bod yn cynnig achubiaeth amserol, gan helpu perchnogion busnesau bach i godi ymwybyddiaeth o frand, denu cwsmeriaid newydd ac argyhoeddi cwsmeriaid blaenorol i ddychwelyd.

Mae Colman Kayman HR Services yn sir y Fflint yn un o dros 6800 o fusnesau i fanteisio ar gyngor am ddim gan Cyflymu Cymru i Fusnesau ar sut mae defnyddio technegau digidol - darllenwch yr hanes yn llawn - <http://bit.ly/Colman-Kayman-article-cy>. Darganfu'r perchennog Charlene Flynn fod y llwyfannau ar-lein Microsoft 365 a OneDrive wedi ei helpu i ennill y frwydr dros gydbwysedd iachach rhwng bywyd a gwaith heb orfod aberthu ei hamcanion busnes.

Dywedodd Charlene: "Mae fy ngwasanaethau i'n hynod o sensitif o ran amser felly mae gallu ymateb i gleientiaid ar unwaith yn hanfodol. Gallaf ateb fy negeseuon e-bost o

bell ac mae popeth yn cael ei storio a'i gadw'n ddiogel yn y cwmwl felly gallaf gael gafael ar fy ffeiliau o unrhyw le.

"Fe es i ar gwrs optimeiddio peiriannau chwilio Cyflymu Cymru i Fusnesau ac fe dalodd hyn ar ei ganfed. Ers gwneud y newidiadau a argymhellwyd, mae ymholiadau drwy'r wefan wedi llifo i mewn ac rydw i wedi dyblu nifer y cleientiaid, ac fe wnaeth hyn fy helpu i wneud elw yn fy mlwyddyn gyntaf."

Rydym ni yma i chi. Mae'r gwasanaeth cymorth digidol Cyflymu Cymru i Fusnesau yn rhoi cymorth am ddim i fusnesau gydag amrywiaeth o weminarau a chyngor un-i-un, yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r wefan. P'un a ydych chi eisiau dweud wrth gwsmeriaid eich bod wedi ailagor yn ddiogel, neu eich bod yn bwriadu gwneud hynny'n fuan, a bod angen i chi gael arian yn llifo eto i sefydlogi eich busnes - gall technegau digidol eich helpu i ddiogelu eich busnes nawr ac yn y dyfodol. I archebu lle ar unrhyw un o'n gweminarau ac i gael cymorth am ddim, ewch i'n tudalen. <http://bit.ly/free-online-courses-cy>

Mynychu digwyddiad rhithwir? Dyma sut i rwydweithio'n llwyddiannus

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi i wella'ch sgiliau rhwydweithio busnes rhithwir a chael y gorau o ddigwyddiadau ar-lein.

✓ Gwnewch eich ymchwil

Ymglyfarwyddwch ag amserlen y digwyddiad, gwnewch rywfaint o ddarllen am gefndir y pwnc neu'r thema y mae'r digwyddiad yn ei gwmpasu, ac ymchwilio i unrhyw siaradwyr. Cymerwch yr amser i fynd trwy'r rhestr o fynychwyr, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i chwilio am bobl os oes angen, a nodi targedau rhwydweithio posibl. Os nad yw rhestr ar gael ymlaen llaw, gallwch barhau i feddwl am y mathau o bobl rydych chi am eu targedu.

✓ Nodwch eich nodau rhwydweithio

Beth ydych chi'n gobeithio elwa ohono trwy fynychu'r digwyddiad hwn? Bydd amlinellu rhai nodau penodol yn gynnar yn eich helpu i gadw ffocws. Nid yw digwyddiadau rhithwir yn tueddu i gynnig yr un potensial ar gyfer hapgyfarfodydd ag y mae digwyddiadau corfforol yn eu gwneud, felly mae cael cynllun wedi'i ddiffinio'n glir yn bwysicach fyth. Cadwch eich nodau yn y cof yn ystod y digwyddiad a gwerthuswch eich llwyddiant wedi hynny.

✓ Darparwch broffil cyflawn

Efallai y gofynnir i chi ar rai apiau digwyddiadau neu gan drefnwyr y digwyddiad i lenwi proffil proffesiynol. Nodwch yn glir ac yn gryno, yr hyn rydych chi'n ei wneud a chynnwys manylion sy'n berthnasol i gynulleidfa'r digwyddiad penodol hwnnw. Bydd dolenni i'r cyfryngau cymdeithasol neu'ch gwefan hefyd yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu dod o hyd i chi yn hawdd ac estyn allan atoch. Gallwch hefyd ddefnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu fel eich cyflwyniad yn ystod y cyfarfod.

✓ Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol

Gall defnyddio cyfryngau cymdeithasol cyn ac ar ôl y digwyddiad eich helpu i wneud a chryfhau cysylltiadau â mynychwyr eraill. Postiwch ar eich sianeli cymdeithasol eich bod am fynychu a dywedwch beth rydych chi'n edrych ymlaen ato. Mae cyfryngau cymdeithasol yn offeryn gwerthfawr i ddarganfod mwy am siaradwyr, cyflwynwyr a mynychwyr eraill, ac i ddechrau rhyngweithio a meithrin perthnasoedd cyn i'r digwyddiad hyd yn oed ddechrau.

✓ Cymerwch ran yn y drafodaeth

Pan fyddwch chi yn y digwyddiad, dylech chi nodi i bobl eich bod chi yno i rwydweithio, trwy gymryd rhan weithredol. Yn ogystal â chyfrannu at y brif sgwrs, gallwch hefyd ddefnyddio'r offeryn negeseuo preifat i gychwyn sgysiau un i un gyda thargedau rhwydweithio ac i drefnu cyfarfodydd dilynol.

✓ Ewch Ar Drywydd

Yn union fel y byddech chi ar ôl digwyddiad personol, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n mynd ar drywydd eich cysylltiadau newydd mewn modd amserol (yn ddelfrydol o fewn 24 awr) trwy estyn allan atynt trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu e-bost. Gwnewch eich neges yn unigryw trwy gyfeirio at rywbeth y buoch chi'n siarad amdano gyda'r unigolyn penodol, neu soniwch am bwnc a drafodwyd yn y digwyddiad.


Er ei bod yn anodd ailadrodd yr union gyffro a'r rhyngweithio rhyngpersonol a welwch mewn digwyddiad corfforol, gall digwyddiadau rhithwir gynnig cyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr o hyd, a chael eu manteision eu hunain. Trwy fod yn barod iawn a chael cynllun clir, gallwch gael y gorau ohonynt a chyflawni'r canlyniadau rhwydweithio rydych chi eu heisiau.



www.developmentbank.wales

Mae gan Fanc Datblygu Cymru arian i helpu busnesau ddechrau, cryfhau a thyfu. I wybod rhagor am y benthyciadau y gallwn eu cynnig, cysylltwch â Claire yn ein tîm benthyciadau bach

Claire.vokes@developmentbank.wales



Cynllun Kickstart: Gwybodaeth i Fusnesau Torfaen

Mae Cynllun Kickstart yn darparu cyllid i greu lleoliadau gwaith newydd ar gyfer pobl 16 i 24 oed sydd ar Gredyd Cynhwysol ac sydd mewn perygl o ddiweithdra tymor hir. Gall cyflogwyr o bob maint wneud cais am gyllid sy'n cwmpasu:

- ✓ 100% o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn dibynnu ar oed y sawl sy'n cymryd rhan) am 25 awr yr wythnos am gyfanswm o 6 mis
- ✓ Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr cysylltiedig
- ✓ Isafswm cyfraniadau ymrestru awtomatig cyflogwr

Mae'n rhaid i gais i'r Cynllun Kickstart fod am isafswm o 30 o leoliadau gwaith ac mae yna 2 ffordd i wneud cais:

- ✓ Os ydych chi'n creu mwy na 30 o leoliadau gwaith gallwch wneud cais yn uniongyrchol trwy gyflwyno cais ar-lein eich hun: <http://bit.ly/kickstart-scheme>
- ✓ Os ydych chi'n creu llai na 30 o swyddi, gall adran Economi a Sgiliau Cyngor Torfaen weithredu ar eich rhan a gwneud cais am grant Cynllun Kickstart ar eich rhan. Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch â: 01633 647743 neu drwy e-bost: employability@torfaen.gov.uk



Byddant yn:

- ✓ Casglu gwybodaeth gennych am y lleoliadau gwaith yr hoffech eu cynnig
- ✓ Defnyddio'r wybodaeth hon i gyflwyno cais ar-lein ar ran grŵp o gyflogwyr
- ✓ Trosglwyddo'r taliadau perthnasol a wneir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i chi (ee cyflog y person ifanc)

Mae gwybodaeth bellach am gynllun Kickstart hefyd ar gael ar: <http://bit.ly/kickstart-scheme>

Ymestyn prosiect i fod o fudd i Gymru gyfan



Bringing Innovation to Life
Dod ag Arloesedd yn Fyw



Mae Prosiect AgorIP, sydd wedi helpu economi Cymru ac arloesedd yng Ngorllewin Cymru i ffynnu dros y pedair blynedd diwethaf, wedi'i ymestyn er budd Cymru gyfan, gyda chyfanswm buddsoddiad o dros £20m.

Mae AgorIP yn dwyn ynghyd academyddion, clinigwyr a busnesau er mwyn cynnal ymchwil arloesol i dechnolegau o'r radd flaenaf a hybu llwyddiant masnachol gyda chymorth Prifysgol Abertawe, a'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru.

Ers lansio'r Prosiect AgorIP, mae'r tîm sy'n gweithio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys Gogledd Cymru, wedi cynorthwyo dros 200 o gyfleoedd; wedi helpu i greu swyddi, diogelu Eiddo Deallusol (IP) a chyflwyno arloesedd i'r farchnad. Mae'r Prosiect hefyd wedi helpu cwmnïau i ehangu o Brifysgol Abertawe trwy sicrhau buddsoddiadau preifat.

Mae AgorIP wedi bod o gymorth i ddod ag amrywiaeth o arloesedd i'r farchnad; gan gynnwys cynhyrchu collagen newydd, beiciau mynydd sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, arloesi gan ddod â realiti rhithwir i ystafelloedd dosbarth, bariau maeth gan ddefnyddio gwympion o ffynonellau lleol yng Ngogledd Cymru, masgiau wyneb amddiffynnol newydd mewn ymateb i argyfwng Covid-19, a gorchuddion metel, i enwi ond rhai.

Mae'r estyniad yn golygu bod arian gwerth £5miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer dwyrain Cymru i gefnogi busnesau sydd am fynd a'u cynnyrch arloesol i'r farchnad. Cysylltwch â'n tîm:

E-bost: info@agorip.com
Twitter: [@AgorIP_Swan](https://twitter.com/AgorIP_Swan)
LinkedIn: AgorIP
Instagram: [agorip_swan](https://www.instagram.com/agorip_swan)